



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Gwybodaeth i Gleifion ynghylch Llawdriniaeth Micrograffig Mohs'

Adran Dermatoleg

Beth yw llawdriniaeth micrograffig Mohs?

Mae llawdriniaeth micrograffig Mohs (a enwyd ar ôl Dr F Mohs) yn cyfeirio at gael gwared ar gancr croen drwy llawdriniaeth gan ddefnyddio archwiliad microsgopig i sicrhau bod y cancr croen wedi'i waredu'n gyfan gwbl, cyn belled ag y mae hynny'n bosibl.

Pryd y defnyddir y llawdriniaeth hon?

Nid yw llawdriniaeth micrograffig Mohs yn llawdriniaeth arferol. Ar gyfer y mwyafrif o gancrau croen arferol, defnyddir techneg torri neu grafu. Mae'r cleifion a ddaw ar gyfer llawdriniaeth micrograffig Mohs wedi'u dethol gan fod ganddynt diwmorau anarferol neu fwy cymhleth oherwydd math, maint neu leoliad y tiwmor neu oherwydd na fu modd eu gwella gyda thechnegau eraill.

Sut mae'n gweithio?

Bydd eich llawdriniaeth yn dechrau yn y bore. Caiff yr ardal o amgylch y cancr croen ei ferwino trwy anesthetig lleol. Caiff yr ardal dan sylw ei chrafu i helpu i ddiffinio'r maint a chael gwared ar y cancr amlwg. Yna caiff y croen a'r meinwe o amgylch y cancr amlwg eu tynnu gyda chylllell llawfeddyg. Caiff y meinwe ei rannu'n samplau llai ac yna caiff y samplau eu paratoi ar gyfer archwiliad. Caiff map o safle'r cancr ei greu, yn dangos perthynas y samplau, yna edrychir ar y samplau dan y microsgop. Wrth baratoi'r samplau i'w harchwilio dan microsgop, rhoddir gorchudd ar yr ardal a byddwch yn aros am y canlyniadau yn yr ystafell aros (am ½ i 1 ½ awr fel arfer)

Bydd y meddyg yn astudio'r samplau i weld a oes cancr ar yr ymylon. Yna gallwch ddychwelyd i'r ardal driniaeth lle caiff unrhyw ardal lle mae cancr ar ôl ei thorri allan yn union fel y tro cynt. Caiff y broses ei hailadrodd hyd nes bod yr holl gancr gweddilliol wedi'i ganfod.

Faint o amser fydd y broses yn cymryd?

Gall cancrâu croen fod yn y croen, y braster, y cyhyr ac yn llai aml yn y nerfau, y rhydweliâu, y cartilag a'r asgwrn. Mewn achosion mwy problemus, bydd angen mwy o amser i gael gwared ar y cancr i gyd. Gallwch fod yno am y bore cyfan a rhan o'r prynhawn. Bydd rhai cleifion yno am lai o amser a bydd yno am hirach. Ni ddylech gynllunio unrhyw weithgareddau eraill ar gyfer y diwrnod. Cofiwch, am gyfran helaeth o'r amser byddwch yn aros tra mae eich cancr yn cael ei archwilio yn y labordy. Gall aelodau'r teulu ffonio ganol y bore i gael syniad gwell o faint o amser bydd ei angen.

Beth fydd yn digwydd ar ôl tynnu'r cancr?

Ar ôl i'r cancr croen gael ei dynnu, eir i'r afael â'r nam llawfeddygol. Yn rhan fwyaf yr achosion, gwneir y llawdriniaeth i bwytho'r clwyf yn dilyn y toriad ac ewch adref yr un diwrnod. Mewn achosion mwy neu fwy cymhleth, efallai gwneir trefniadau ar gyfer un o'r canlynol: atgyfeiriad at arbenigwr arall ar gyfer ail-lunio, mynd i'r ysbyty neu lawdriniaeth y mae angen anesthetig cyffredinol ar ei chyfer.

**“Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”**